

Briff Ymchwil

# Bil Cymru 2016


Awdur: **Alys Thomas**


Dyddiad: **Mehefin 2016**


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Mehefin 2016**
Rhif Papur: **16-031**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6305**
: **Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Bil Cymru 2016

Trosolwg: Cafodd Bil Cymru ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2016 a chafwyd datganiad gan Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i gyd-fynd ag ef. Bydd yn cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Mawrth 14 Mehefin 2016. Yn y papur hwn ceir rhywfaint o gefndir y Bil ac amlinelliad o'i gynnwys a chrynodeb o'r ymatebion cyntaf i'r Bil yn dilyn datganiad Prif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 1
2. Y Bil Drafft ..... 1
Pwerau a gedwir yn ôl ..... 1
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar y Bil drafft ..... 1
Craffu gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ..... 2
Datganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru ..... 2
Bil Amgen Llywodraeth Cymru ..... 3
Ymateb Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Materion Cymreig ..... 4
3. Bil Cymru 2016 ..... 6
Rhan 1 o'r Bil ..... 6
Rhan 2: Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithrediaeth: darpariaeth bellach ..... 9
Rhan 3: Amrywiol ..... 10
Rhan 4: Cyffredinol ..... 10
4. Datganiad Prif Weinidog Cymru ..... 10
Atodiad 1 ..... 13

# 1. Cyflwyniad

Cafodd **Bil Cymru** ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2016 a chafwyd **datganiad gan Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru**, i gyd-fynd ag ef. Bydd yn cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Mawrth 14 Mehefin 2016. Yn y papur hwn ceir rhywfaint o gefndir y Bil ac amlinelliad o'i gynnwys, a chrynodeb o'r ymatebion cyntaf i'r Bil yn dilyn datganiad Prif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn.

# 2. Y Bil Drafft

## Pwerau a gedwir yn ôl

Bu llawer o drafod yn y Pedwerydd Cynulliad (a ysgogwyd yn rhannol gan refferendwm annibyniaeth yr Alban) ynghylch diffygion y setliad datganoli presennol a sut y gellid ei wella. Yn benodol, roedd cynnydd yn y galw am fodel cadw pwerau'n ôl. Yn y model hwnnw, mae'r pwerau hynny y mae Senedd y DU yn eu cadw'n ôl yn cael eu pennu yn y ddeddfwriaeth, ac mae'r holl bwerau eraill yn cael eu datganoli i'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae'r pwerau a ddatganolwyd i Gymru yn cael eu rhoi o dan 21 pennawd yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **Fil Cymru drafft** i ymgynghori yn ei gylch a oedd yn cynnwys fframwaith datganoli newydd. Y bwriad oedd creu setliad parhaol a fyddai'n rhoi mwy o eglurder a sicrwydd am ffiniau pwerau Cymru.

Un o brif nodweddion y Bil drafft oedd model o ddatganoli sy'n seiliedig ar gadw pwerau'n ôl a oedd yn nodi'n glir y meysydd pwnc a oedd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Roedd **ail adroddiad Comisiwn Silk** (2014) ar ddatganoli yng Nghymru yn argymell mabwysiadu model o'r fath, a daeth i'r casgliad y byddai'n gliriach ac yn symlach i'w weinyddu na'r trefniant presennol. Byddai hefyd yn helpu i atal rhagor o Filiau'r Cynulliad rhag cael eu hatgyfeirio i'r **Goruchaf Lys i gael dyfarniad ar gymhwysedd**, fel sydd wedi digwydd ar dri achlysur ers i'r Cynulliad gael pwerau deddfu llawn yn 2011.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar y Bil drafft

Bu **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** y Cynulliad yn craffu ar y Bil drafft yn ystod tymor yr hydref 2015.

Roedd y Bil drafft yn cynnwys cynigion penodol a chafwyd tystiolaeth gadarnhaol yn eu cylch ar y cyfan, fel darparu mewn cyfraith i'r **Cynulliad fod yn barhaol**, cael gwared ar reolaethau diangen ynghylch **cyfansoddiad pwyllgorau'r Cynulliad**, rhoi'r gorau i **gynnwys Gweinidogion y DU yn nhrafodion y Cynulliad**, gosod **Confensiwn Sewel** ar sail ddeddfwriaethol, a **throsglwyddo pwerau** ym meysydd ynni, trafnidiaeth ac etholiadau. Fodd bynnag, cafodd sawl pwynt am gynnwys y Bil drafft ei godi mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn ei adroddiad, nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol bod "mantol y dystiolaeth a gafwyd yn syrthio'n drwm yn erbyn y ffordd y mae'r Bil drafft yn diffinio ffin cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad" ac nid yw "eto mewn cyflwr i ennyn consensws". Nid oedd yn credu y dylai'r Bil fynd yn ei flaen hyd nes ei fod wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol.

Roedd y Pwyllgor o'r farn, os oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu dilyn yr amserlen a nodwyd, y dylai'r Bil drafft gael ei ddiwygio i gynnwys:

– cael gwared ar y **prawf angenrheidrwydd** neu ei gyfnewid am brawf sy'n seiliedig ar briodoldeb;

- cael system i'w gwneud yn ofynnol cael **cydsyniad Gweinidogion y Goron**, sy'n adlewyrchu'r model yn *Neddf yr Alban 1998;*
- cael gostyngiad sylweddol **yn nifer a maint y cymalau cadw** a'r cyfyngiadau penodol sy'n gydnaws â deddfwrfa aeddfed, effeithiol ac atebol sydd i gael pwerau treth incwm drwy'r un Bil;
- cael **awdurdodaeth ar wahân** lle byddai Deddfau Cymru yn gymwys i Gymru yn unig;
- system lle mae **Deddfau Cymru yn addasu cyfraith Cymru a Lloegr fel y bo'n briodol** ar gyfer gorfodaeth resymol; ac
- ymrwymiad clir y bydd **cydgrynhoi dwyieithog** yn cael ei wneud yn ystod y Senedd bresennol.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei drafod yn y **Cyfarfod Llawn** ar **13 Ionawr 2016**. Cyflwynwyd cyfres o gynigion ar gyfer pob un o argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a chafodd pob un **gefnogaeth unfrydol** y Cynulliad.

## Craffu gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig

Mae Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig Tŷ'r Cyffredin hefyd wedi craffu ar y Bil drafft. Yn yr **adroddiad** a gyhoeddwyd ganddo ar 28 Chwefror 2016 roedd yn feirniadol o'r broses, gan ddweud y gallai rhai o'r penderfyniadau a wnaed wrth baratoi'r Bil drafft rwystro ei ymarferoldeb. Er enghraifft, roedd y penderfyniad i ddiwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn hytrach na disodli, yn golygu nad oedd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn annibynnol. Dadleuodd y gellid bod wedi cynnal trafodaethau helaethach cyn i'r Bil drafft gael ei gyhoeddi. Dywedodd:

> *Er bod y broses cyn deddfu hon wedi dod â gwahanol safbwyntiau i'r amlwg, mae hefyd wedi dangos y bydd y Bil terfynol yn wahanol iawn i'r un rydym wedi craffu arno. Nid yw hynny'n briodol. Er mai bwriad y broses yw cynnig newidiadau a gwelliannau, oherwydd pwysau'r dystiolaeth a gawsom rydym wedi gorfod canolbwyntio ar egwyddorion sylfaenol y Bil drafft yn hytrach nag agweddau penodol ar y testun. Dylai'r Llywodraeth fod wedi canolbwyntio ar ddatrys y materion hyn o egwyddor, cyn bwrw ymlaen â Bil drafft. Byddai wedi bod yn bosibl cyflawni hyn drwy gynnal ymgynghoriad ar ei chynigion a fyddai hefyd wedi gwyntyllu'r materion hyn.*

Daeth yr adroddiad i ben drwy argymell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn oedi i ystyried yr argymhellion. Roedd y rhain yn gofyn iddo edrych eto ar y profion angenrheidrwydd, y rhestr o gymalau cadw, mater y cydsyniadau gweinidogol a hefyd i barhau i adolygu mater awdurdodaeth ar wahân neu benodol i Gymru.

## Datganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ar 29 Chwefror 2016 gwnaeth Stephen Crabb AS, a oedd bryd hynny'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru, **ddatganiad**, a dywedodd yn y datganiad y byddai'r broses o gyflwyno Bil Cymru yn cael ei gohirio tan yr haf. Tynnodd sylw at feysydd a fyddai'n newid yn sgil y dystiolaeth a gafwyd gan y ddau bwyllgor.

Cyhoeddodd ei fwriad i **ddileu'r prawf angenrheidrwydd** yn hytrach na'i ddisodli. Dywedodd:

> *O gofio mai nod allweddol yw lleihau cymhlethdod, bydd cael gwared â'r "prawf angenrheidrwydd" yn cael gwared â biwrocratiaeth gyfansoddiadol sydd mewn perygl o lesteirio gallu'r Cynulliad i addasu'r gyfraith er mwyn gorfodi ei ddeddfwriaeth y mae'n gyfrifol amdani.*

Cytunodd hefyd i **leihau nifer y cymalau cadw** a rhoddodd gyfarwyddyd i swyddogion Swyddfa Cymru weithio â chydweithwyr yng Nghabinet y DU i lunio rhestr ddiwygiedig.

Mewn perthynas â **chydsyniad gweinidogol**, dywedodd ei fod yn bwriadu cael gwared ar y cyfyngiad cyffredinol ar y Cynulliad o ran addasu swyddogaethau Gweinidog y Goron mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, ac i adolygu pob un o'r swyddogaethau i geisio datganoli cymaint ag y bo modd.

Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei wrthwynebiad i **awdurdodaeth ar wahân i Gymru** ond cyhoeddodd fod gweithgor wedi'i greu – gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus, a Llywodraeth Cymru – i ystyried pa drefniadau penodol fyddai eu hangen i gydnabod anghenion Cymru o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr pan gaiff y model cadw pwerau ei roi ar waith.

Ar 19 Mawrth 2016, penodwyd Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn lle Stephen Crabb AS.

## Bil Amgen Llywodraeth Cymru

Ddydd Llun 7 Mawrth 2016, gwnaeth Prif Weinidog Cymru **Ddatganiad Ysgrifenedig** a chyhoeddodd y *Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru* ('y bil amgen') ynghyd â **Chrynodeb Esboniadol**. Yn y crynodeb, soniwyd fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Bil amgen 'fel cyfraniad cadarnhaol i ddatblygu datganoli yng Nghymru, ac i helpu'r Ysgrifennydd Gwladol a Senedd y DU wrth iddynt ystyried sut y dylid gwella'r setliad'.

**Bil cydgrynhoi** yw'r bil amgen, felly byddai'n ailddeddfu llawer o'r hyn sydd yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, er enghraifft o ran strwythur y Cynulliad. Mae darpariaethau eraill wedi'u cynnwys o'r hyn sydd bellach yn Ddeddf yr Alban 2016, Mesurau'r Cynulliad a'r Bil Cymru drafft, ac mae rhai darpariaethau newydd. Byddai Cymal 1 yn ailenwi'r Cynulliad yn Senedd.

Byddai'r Bil yn darparu ar gyfer newid o fodel rhoi pwerau i fodel **cadw pwerau** ar unwaith. Yn ôl y Crynodeb Esboniadol, mae'r rhestr o **faterion i'w cadw'n ôl** yn cynnwys y materion hynny sy'n **hanfodol i undod gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y DU.** Felly mae darpariaethau sy'n cefnogi marchnad fewnol y DU, neu nawdd cymdeithasol, yn faterion a gedwir yn ôl.

Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu, yn y tymor hwy, ar gyfer datganoli'r **heddlu, gweinyddu cyfiawnder, cyfraith trosedd a chyfraith teulu**, pob un ohonynt yn **'faterion gohiriedig'** hyd nes y **'dyddiad trosglwyddo gohiriedig'** sef **1 Mawrth 2026.**

Byddai'r bil amgen yn darparu ar gyfer **creu awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol i Gymru ar unwaith**, gan wahanu cyfreithiau Cymru oddi wrth gyfreithiau Lloegr. Yn ôl y Crynodeb Esboniadol:

> *Dechreuodd Llywodraeth Cymru drafodaeth am awdurdodaeth Cymru yn 2011. Bryd hynny, daethom i'r casgliad y dylai'r awdurdodaeth ddatblygu'n naturiol dros gyfnod o amser. Ond mae'r gwaith manwl ar y model cadw pwerau wedi dangos yn glir bod creu model o'r fath o fewn awdurdodaeth gyfunol yn peryglu creu rhagor o gymhlethdod ac ansicrwydd. Felly fel y gwnaethom ddadlau yn ein tystiolaeth i CLAC [...] rydym wedi dod i'r casgliad mai awdurdodaeth i Gymru yw'r ffordd gywir i symud ymlaen yn unol â'r egwyddorion a nodwyd uchod.*

Mae'r bil amgen yn darparu ar gyfer rhai **cyfyngiadau** newydd ar bwerau Senedd arfaethedig Cymru mewn tair ffordd:

- bydd pwerau Senedd Cymru **ond yn medru cael eu harfer mewn perthynas â Chymru**. Felly, drwy sefydlu awdurdodaeth benodol i Gymru, ceir gwared â'r gallu i gyfreithiau Cymru fod yn gymwys mewn rhai agweddau yn Lloegr. Fel yn yr Alban, bydd newidiadau yng nghyfraith Lloegr sy'n ganlyniadau i Ddeddfau Senedd Cymru a wnaed ar gyfer Cymru yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU drwy reoliadau.

- Mae rhywfaint o leihau pwerau'n angenrheidiol i sicrhau bod yr **hawliau a'r dyletswyddau cyflogaeth** sydd eu hangen fel sylfaen i farchnad lafur fewnol y DU yn cael eu cadw yn ôl yn glir ac yn rhesymegol.
- Yn drydydd, ni fydd modd i Senedd Cymru addasu gweithrediadau na chyfansoddiadau **awdurdodau a gedwir yn ôl a restrwyd** heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, na diwygio'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl oni bai bod gwneud hynny'n angenrheidiol at ddiben datganoledig.

Nid Bil Cynulliad na Bil San Steffan mo'r bil amgen, ond model posibl o'r modd y gellid newid setliad datganoli Cymru.

## Ymateb Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Materion Cymreig

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **hymateb i Adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin** ar y Bil drafft ar yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd y Bil ei hun. Mae'n cynnwys rhai pwyntiau ynghylch gweithredu'r Bil yn y dyfodol.

O ran mater **awdurdodaeth benodol** ei barn oedd: "Rydym yn credu bod yr awdurdodaeth gyfreithiol sengl, bresennol yn addas i'w diben." Aeth rhagddi i ddweud:

> *Er hynny, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod angen adlewyrchu gwahanolrwydd Cymru ym mhob agwedd ar yr awdurdodaeth gyfreithiol sengl. Mae'r Bil yn cadarnhau bodolaeth cyfraith i Gymru a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru mewn statud, sy'n ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr.*
>
> *Dylai cyfraith i Gymru hefyd gyfrannu at drefniadau effeithlon ac effeithiol ar gyfer gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, a hynny'n cwmpasu materion fel diwygio rheolau llys a hyfforddiant barnwrol.*
>
> *Felly mae'r Llywodraeth wedi sefydlu gweithgor o swyddogion, yn cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus, i edrych yn fanwl ar y trefniadau hyn ac argymell ffyrdd o'u gwella.* ***Bydd y gwaith hwn yn symud ymlaen ochr yn ochr â'r Bil***, [pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil] *a bydd y gweithgor yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth wneud argymhellion i wella'r system bresennol.*

Cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fanylion y gweithgor hwn yr un diwrnod. Caiff y gweithgor ei gadeirio gan **Scott McPherson, Cyfarwyddwr y Gyfraith, Hawliau a Rhyngwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder**. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Swyddfa Cymru, Swyddfa'r Cabinet, y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol / Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Farnwrol a Llywodraeth Cymru.

Mae ei **gylch gorchwyl** yn cynnwys y canlynol:

> *Diben*
>
> *Ystyried goblygiadau gweinyddol ac ymarferol ar gyfer y system gyfiawnder y corff sy'n dod i'r amlwg o gyfreithiau Cymreig a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac argymell gwelliannau mewn trefniadau a gweithdrefnau gweinyddol i sicrhau bod cyfreithiau'r Cynulliad yn cael eu hymgorffori'n llawn yn y system gyfiawnder.*
>
> *Adrodd i Weinidogion erbyn tymor yr hydref 2016, gan gynnwys cynllun gweithredu arfaethedig i weithredu'r argymhellion a wnaed.*

*Cwmpas*

*Wrth nodi gwelliannau y dylid eu gwneud, bydd y grŵp yn ystyried:*

*beth fydd y goblygiadau i gyfiawnder yng Nghymru wrth symud i'r model pwerau a gedwir o ddatganoli fel y nodir ym Mil Cymru*

*goblygiadau cyfansoddiadol ac ymarferol cyfreithiau Cymreig sy'n gwyro o drefn Cymru a Lloegr yn system gyfiawnder Cymru a Lloegr*

*yr angen am drefniadau cyfiawnder unigryw i adlewyrchu'r corff sy'n dod i'r amlwg o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad.*

Mae'r ymateb yn datgan bod Llywodraeth y DU yn bwriadu i'r model cadw pwerau newydd fod yn ffin glir rhwng pwerau sydd wedi'u datganoli a phwerau a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod y **cyfyngiad cyffredinol presennol sy'n gwahardd y Cynulliad rhag deddfu ar swyddogaethau sy'n aros gyda Gweinidogion y Goron** (y swyddogaethau "cyn cychwyn" fel y'u gelwir) mewn meysydd datganoledig, heb gael cydsyniad, yn mynd yn groes i'r egwyddor allweddol hon. Mae'n nodi:

*Felly mae'r Llywodraeth yn dileu'r cyfyngiad cyffredinol hwn ym Mil Cymru. Mae'r Bil yn rhestru'r swyddogaethau hynny a fydd yn parhau i gael eu harfer yn gydredol neu ar y cyd rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y Goron, a'r ychydig swyddogaethau sy'n weddill y bydd un o Weinidogion y Goron yn parhau i'w harfer, ac na ellir eu haddasu drwy ddeddfwriaeth y Cynulliad heb gael cydsyniad. Bydd yr holl swyddogaethau eraill mewn meysydd a ddatganolwyd yn cael eu trosglwyddo drwy Orchymyn i Weinidogion Cymru. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidog priodol y DU os yw Bil Cynulliad yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio un o swyddogaethau Gweinidogion y Goron sydd heb ei throsglwyddo drwy ddarpariaeth yn y Bil neu ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn a wnaed wedyn.*

O ran argymhelliad y Pwyllgor ynghylch **amseriad y cydsyniadau Gweinidogol**, nodir fel a ganlyn:

*Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen gweithdrefn glir i gael cydsyniadau Gweinidogol. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y weithdrefn yn un weinyddol ac mai'r peth gorau fydd ei nodi mewn canllawiau yn hytrach nag ar wyneb Bil Cymru. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar gyfer Adrannau Llywodraeth y DU ar weithio gyda'r model cadw pwerau newydd i Gymru. Byddwn yn gwneud hynny'n agosach at yr amser y bydd y model cadw pwerau newydd yn cael ei roi ar waith, a byddwn yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad wrth eu paratoi. Bydd y canllawiau'n cynnwys terfyn amser o 60 niwrnod gwaith ar gyfer rhoi neu wrthod cydsyniad. Bydd y canllawiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth roi rhesymau dros wrthod cydsyniad.*

# 3. Bil Cymru 2016

Cyflwynwyd Bil Cymru ("y Bil") ar 7 Mehefin 2016. Bil sy'n diwygio Deddfau Seneddol eraill, gan gynnwys *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw hwn yn hytrach na Bil cydgrynhoi. Mae strwythur y Bil i'w weld yn Atodiad 1 isod.

## Rhan 1 o'r Bil

Mae **Rhan 1** o'r Bil yn trafod **trefniadau cyfansoddiadol** . **Mae cymal 1** yn diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i gadarnhau **parhauster** y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, yn yr un modd â'r Bil drafft. Fodd bynnag, mae is-gymal pellach yn esbonio diben y cymal fel a ganlyn: [to] "signify the commitment of the Parliament and Government of the United Kingdom to the Assembly and the Welsh Government." Mae is-adran olaf yn datgan:

> *In view of that commitment it is declared that the Assembly and the Welsh Government* ***are not to be abolished except on the basis of a decision of the people of Wales voting in a referendum*** [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil].

Mae **cymal 2** yn diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i gynnwys y geiriau "But it is recognised that the Parliament of the United Kingdom **will not normally legislate with regard to devolved matters without the consent of the Assembly**", a thrwy hynny'n gosod y confensiwn presennol mewn statud.

Mae **cymal 3** yn ymwneud â **chymhwysedd deddfwriaethol** y Cynulliad. Mae Cymal 3(1) yn disodli adran 108 presennol o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* gydag adran 108A newydd. Mae'r adran newydd hon yn nodi'r cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy gyfeirio at **ddwy Atodlen newydd, 7A a 7B**, sy'n disodli Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac sy'n rhestru'r **materion a gedwir yn ôl a chyfyngiadau cyffredinol.**

Mae'r Bil yn galluogi'r Cynulliad i **addasu cyfraith trosedd** at ddiben datganoledig, ac eithrio ar gyfer rhestr fer o droseddau ac elfennau craidd o gyfraith trosedd. Mae'r **prawf angenrheidrwydd wedi'i ddileu ar gyfer cyfraith breifat**. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi modd i'r Cynulliad addasu'r gyfraith trosedd/preifat at ddiben datganoledig er mwyn helpu i orfodi ei ddeddfwriaeth.

Mae'r Bil yn cadw'r **prawf angenrheidrwydd** yn y ddau amgylchiad arall. Yn gyntaf, pan fo'r Cynulliad yn deddfu ynghylch Lloegr. Mae cymal 3 o'r Bil yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch Lloegr os yw'r ddarpariaeth yn **ategol i ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad** (neu Fesur Cynulliad), neu i ddarpariaeth ddatganoledig mewn Deddf Seneddol, yn amodol ar y "prawf angenrheidrwydd", sef na all darpariaeth y Cynulliad gael *effaith ehangach, y tu hwnt i'r effaith ar Gymru, nag sy'n angenrheidiol at ddibenion y ddarpariaeth honno.*

Yn ail, pan fydd y Cynulliad yn **addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl**, mae paragraff 1(1) o'r Atodlen 7B newydd (Atodlen 2 i'r Bil) yn atal darpariaeth mewn Deddf Cynulliad rhag addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl. Caiff y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl ei diffinio ym mharagraff 1(2) fel unrhyw ddeddfiad gan Senedd y DU neu reol cyfraith gyffredin, y mae'r pynciau y maent yn eu trafod yn fater a gedwir yn ôl yn yr Atodlen 7A newydd. Mae paragraff 2 yn nodi **eithriad** i hyn, fel y gall y Cynulliad addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl os yw'r addasiad yn **ategol i ddarpariaeth sydd â phwrpas datganoledig ac** ***nad yw'n cael mwy o effaith ar faterion a gedwir yn ôl nag sydd ei hangen i roi effaith at ddibenion y ddarpariaeth honno***.

Mae **cymal 4** yn diffinio "awdurdod cyhoeddus" yng Nghymru ac yn mewnosod Atodlen newydd i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.* Gellir dim ond arfer swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus Cymru **mewn perthynas â Chymru** ac maent oll neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â

materion a gedwir yn ôl. Mae'r Bil yn cynnwys rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymru er eglurder o ran yr awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli, ac yn cynnwys pŵer i ddiwygio'r rhestr yn y dyfodol drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gymeradwyir gan y Cynulliad a Ddau Dŷ Senedd y DU.

Mae **cymalau 5** a 6 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn cael pwerau dros etholiadau

Mae **cymal 7** yn diwygio *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* o ran y weithdrefn ar gyfer ceisiadau i'r gofrestr etholwyr i ddarparu bod swyddogaethau penodol yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y **Gwasanaeth Digidol** yn arferadwy gan **Weinidogion Cymru ar yr un pryd ag** un o Weinidogion y Goron.

Mae **cymal 8** yn mewnosod adrannau 111A a 111B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i'w gwneud yn ofynnol bod rhai mathau o **ddeddfwriaeth etholiadol** yn cael eu pasio gan **fwyafrif o ddwy ran o dair** yn y Cynulliad.

Mae'r materion hyn, o ran etholiadau i'r Cynulliad, fel a ganlyn:

- yr **etholfraint** gyfer yr etholiadau hynny,
- y **system** sy'n rheoli sut y caiff Aelodau'r Cynulliad eu hethol,
- manylion neu **nifer yr etholaethau a rhanbarthau**, neu ardaloedd eraill o'r fath, a
- **nifer yr Aelodau** a fydd yn cael eu hethol ym mhob etholaeth neu ranbarth, neu ardaloedd eraill o'r fath.

Hefyd, byddai darpariaeth sy'n **newid enw'r Cynulliad** yn berthnasol fel pwnc a warchodir a byddai angen sicrhau mwyafrif o ddwy ran o dair cyn y gellid ei phasio.

Mae **cymal 9** yn diwygio adrannau 111 a 112 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i adlewyrchu'r prosesau newydd sydd yn rhaid eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r angen am fwyafrif o ddwy ran o dair. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog yn darparu bod Bil sydd wedi cael ei basio yn cael ei drafod eto os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu bod y Llywydd yn anghywir wrth ardystio a oes unrhyw ddarpariaeth ynddo yn ymwneud â phwnc a warchodir ai peidio.

Mae **cymal 10** yn darparu bod **asesiadau o'r effaith ar gyfiawnder** yn cael eu cynnal ynghylch Biliau'r Cynulliad. Mae'n gwneud hynny drwy ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth yn gofyn bod y person sy'n gyfrifol am Fil Cynulliad yn gwneud datganiad ysgrifenedig yn nodi effaith bosibl darpariaethau'r Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Rhaid i reolau sefydlog ragnodi ffurf a dull yr asesiad ac mae'n rhaid i ganlyniad yr asesiad gael ei gyhoeddi.

Mae **cymal 11** yn darparu mai'r **Llywydd** ddylai **gyflwyno deddfwriaeth y Cynulliad i gael Cydsyniad Brenhinol,** yn hytrach na Chlerc y Cynulliad. Mae'r cymal hefyd yn darparu y dylid rhoi gwybod i'r Llywydd, yn hytrach na Chlerc y Cynulliad, pan fydd Bil yn destun cyfeiriad i'r Goruchaf Lys a phan nad yw'r Twrnai Cyffredinol neu'r Cwnsler Cyffredinol yn bwriadu cyfeirio Bil.

**Cymal 12**, Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio: Mae'r adran hon yn darparu y bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwneud drwy **Ddeddf y Cynulliad ("deddfwriaeth Cymru"), neu o dan Ddeddf o'r fath, ynghylch rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio**. Mae hyn yn disodli'r trefniadau blaenorol ar gyfer rheolaethau ariannol yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae **cymal 13** yn diddymu adran 29 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i **gael gwared ar y cyfyngiadau ar gyfansoddiad y pwyllgorau** ac yn caniatáu iddynt gael eu diwygio drwy newidiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad.

Mae **cymal 14** yn diddymu adrannau 32 a 33 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae diddymu adran 32 yn **dileu hawl Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad**. Mae diddymu adran 33 yn dileu'r **gofyniad bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn dod i'r Cynulliad** fel rhan o'r broses ymgynghori ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

Mae **cymal 15** yn mewnosod adran 150A newydd i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn sicrhau bod cyfeiriadau mewn deddfwriaeth arall i'r Cynulliad a chyrff eraill yn cael eu **diwygio'n awtomatig** os bydd y Cynulliad yn arfer ei bŵer i **newid ei enw**.

Mae **cymal 16** yn diwygio *Deddf Cymru 2014* i **ddileu'r gofyniad bod refferendwm yn cael ei gynnal** cyn datganoli elfen o **dreth incwm.**

Mae **cymal 17** yn diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i roi **pwerau cyfraith gyffredin i Weinidogion Cymru**; disgrifir y pwerau hyn fel **swyddogaethau gweithredol Ei Mawrhydi** a gellir eu harfer ynghylch swyddogaethau datganoledig ac ynghylch swyddogaethau gweithredol a roddir i Weinidogion Cymru y gellir eu harfer mewn meysydd a gedwir yn ôl. Mae is-adran (5) yn diffinio ystyr swyddogaeth weithredol; nid yw hyn yn cynnwys unrhyw swyddogaethau uchelfreiniol.

Mae **cymal 18** yn rhoi **hawl awtomatig i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau** o dan adran 2(2) o ***Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972*** **sy'n gweithredu cyfraith yr UE**. Mae'r hawl hon yn berthnasol i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ni fydd camau a gymerir gan Weinidogion Cymru i arfer pwerau o'r fath yn amodol mwyach ar ddynodiad blaenorol mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a baratoir gan Lywodraeth y DU.

Gall swyddogaethau a roddir gan ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn a wneir o dan adran 58 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae **cymal 19**, is-adran (1), yn addasu adran 58 drwy alluogi gorchymyn i nodi y gallai swyddogaeth hefyd gael ei **harfer ar y cyd** , yn ogystal ag ar yr un pryd, gan **Weinidog y Goron a Gweinidogion Cymru**. Wrth drosglwyddo gorchmynion swyddogaethau, gellir hefyd nodi y gall fod angen cytundeb Gweinidog y Goron ar swyddogaethau y gellir eu harfer gan Weinidogion Cymru, neu fod angen ymgynghori â Gweinidog y Goron cyn i Weinidogion Cymru arfer y swyddogaethau hyn. Mae is-adran (2) yn addasu darpariaeth yn Atodlen 3 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* drwy ddileu'r cyfeiriad at gyrff trawsffiniol ac ardaloedd ar y ffin yn Lloegr.

Mae is-adran (3) yn mewnosod Atodlen 3A newydd i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n rhestru'r holl **bwerau sy'n cael eu harfer ar y cyd neu ar yr un pryd gan Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru**. Mae'r pwerau hyn eisoes wedi'u trosglwyddo drwy orchmynion trosglwyddo swyddogaethau a wnaed o dan y pwerau a restrir yn adran 58 (2A)(c) a fewnosodwyd gan gymal 19. Gellir ychwanegu at yr Atodlen hon drwy Orchmynion dilynol, os ydynt yn cynnwys pwerau a rennir, fel bod rhestr gynhwysfawr o bwerau o'r fath ar gael yn rhwydd.

Mae **cymal 20** yn gwneud **addasiadau pellach i'r pŵer yn adran 58 i wneud gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau**.

Mae **cymal 21** yn diddymu adran 63 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (ymgynghori ar gyrff trawsffiniol). Rhoddodd yr adran hon **ddyletswydd ar Weinidogion y Goron i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn arfer swyddogaethau penodol ynghylch cyrff trawsffiniol**. Ni ddefnyddir yr ymadrodd 'corff trawsffiniol' yn y model pwerau a gedwir yn ôl a gyflwynir gan y Bil. O dan y strwythur newydd, bydd awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau y gellir eu harfer yn Lloegr yn ogystal â Chymru yn gyffredinol yn cael eu galw'n 'awdurdodau a gedwir yn ôl'.

## Rhan 2: Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithrediaeth: darpariaeth bellach

Mae **cymalau 22 i 24** yn gwneud darpariaethau sy'n datganoli pwerau i Weinidogion Cymru dros betrolewm ar y tir.

Mae **cymal 25** yn gwneud darpariaethau sy'n datganoli pwerau i Weinidogion Cymru dros ffyrdd: terfynau cyflymder, croesfannau i gerddwyr ac arwyddion traffig.

Mae **cymal 26** yn gwneud darpariaethau sy'n datganoli pwerau i Weinidogion Cymru dros gofrestru gwasanaethau bws a Chomisiynwyr Traffig.

Mae **cymal 27** yn gwneud darpariaethau sy'n trosglwyddo swyddogaethau penodol o ran tacsis i Weinidogion Cymru.

Mae **cymalau 28 i 35** yn trosglwyddo swyddogaethau gweithrediaeth ynghylch porthladdoedd Cymru.

Mae **cymalau 36 i 39** yn darparu bod cyfrifoldeb dros ganiatâd cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni sydd â chapasiti o 350MW neu lai yn cael ei ddatganoli i Weinidogion Cymru.

Mae **cymal 40** yn diwygio adran 152(2) o *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* (Deddf 2010). Mae'r rhan berthnasol o'r adran hon yn nodi'r broses y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth arfer pŵer i ddiwygio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymru, a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010, sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Bellach, ni fydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gael cydsyniad Gweinidog y Goron cyn gwneud gorchymyn yn diwygio'r rhestr, ond yn hytrach mae'n rhaid iddynt roi gwybod i Weinidog y Goron ar ôl diwygio Atodlen 19.

Mae **cymal 41** yn diwygio'r trefniadau ar gyfer cychwyn Rhan 1 o Ddeddf 2010 yng Nghymru (anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol). Mae'r cymal hefyd yn diwygio pwerau Gweinidogion Cymru lle maent yn dymuno diwygio adran 1 o Ddeddf 2010. Mae Rhan 1, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau datganoledig neu swyddogaethau sy'n bennaf wedi'u datganoli, eisoes wedi'i datganoli, ond hyd yma nid oedd mecanwaith ar gael i Weinidogion Cymru gychwyn y ddarpariaeth fel y mae'n berthnasol i'r cyrff hynny.

Mae **cymal 42** yn gweithredu argymhelliad Comisiwn Silk y dylai'r cyfrifoldebau gweithrediaeth presennol ar gyfer trwyddedu morol yn rhanbarth glannau Cymru gael eu hymestyn i ranbarth môr mawr Cymru. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan gymal 26 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru  arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â thrwyddedu morol yn rhanbarth môr mawr Cymru.

Mae **cymal 43** yn penodi Gweinidogion Cymru yn awdurdod priodol ar gyfer rhanbarth môr mawr Cymru, gan eu galluogi i ddynodi ardaloedd yn barthau cadwraeth morol yn y rhanbarth hwnnw yn unol â *Rhan 5 (Cadwraeth Natur) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf 2009).*

Nid oedd cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch **carthffosiaeth** wedi'i roi i'r Cynulliad yn flaenorol, a chaiff ei ddatganoli i'r graddau a nodir yng nghymalau cadw 90 a 91 o'r Atodlen 7A arfaethedig. Mae **cymal 44** yn diwygio adran 114 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* drwy ychwanegu **pŵer ymyrryd newydd dros gymhwysedd y Cynulliad i basio Deddf Cynulliad ynghylch carthffosiaeth**. Mae'r pŵer ymyrryd hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn yn gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol lle mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol sail resymol dros gredu y gallai'r Bil, os daw'n Ddeddf Cynulliad ar y ffurf honno, gael **effaith andwyol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth yn Lloegr neu ar systemau carthffosiaeth yn Lloegr**. Mae'r pŵer ymyrryd hwn yn debyg i un sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol eisoes mewn cysylltiad â datganoli materion sy'n ymwneud â dŵr.

Mae rheoleiddio adeiladau a gwaith adeiladu yn fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae swyddogaethau o dan *Ddeddf Adeiladu 1984* i wneud rheoliadau adeiladu a materion cysylltiedig wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru drwy orchymyn yn 2009 a ddaeth i rym yn 2011. Cafodd **eithriad** o'r trosglwyddiad ei wneud mewn perthynas ag **adeiladau ynni wedi'u heithrio ("excepted energy buildings")**; hynny yw, adeiladau sy'n rhan o seilwaith ynni. Mae'r **cymal 45** hwn yn **cael gwared ar yr eithriad** drwy wneud y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o dan *Ddeddf Adeiladu 1984* ar gyfer y categori hwnnw o adeiladau.

**Mae cymal 46** yn rhoi **dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru** cyn sefydlu neu ddiwygio **cynllun cymhelliant ynni adnewyddadwy**. Mae cynllun cymhelliant ynni adnewyddadwy wedi'i ddiffinio ac mae'n cynnwys y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, y Tariff Cyflenwi Trydan a'r Contractau Gwahaniaeth.

### Rhan 3: Amrywiol

**Mae cymal 47** yn galluogi'r **Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gael gwybodaeth am Gymru** o'r fath sydd ei hangen arni yn rhesymol i gyflawni ei dyletswydd statudol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lunio rhagolygon a dadansoddiadau o'r economi a chyllid cyhoeddus.

Mae is-adran (1) o **gymal 48** yn diwygio adran 37 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, sy'n rhoi pŵer i'r Cynulliad ei wneud yn ofynnol bod personau yn bresennol yn ystod ei drafodion i roi tystiolaeth neu gyflwyno dogfennau. Caiff is-adran (6A) newydd ei mewnosod yn adran 37 sy'n **rhoi'r pŵer i'r Cynulliad osod gofynion o'r fath ynghylch cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan** mewn perthynas â Chymru.

**Mae cymal 49** darparu bod yn rhaid i weithredwr pwll glo sydd am gloddio yng Nghymru geisio **cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru** fel rhan o'i gais am drwydded.

**Mae cymal 50** yn diwygio adran 1 o *Ddeddf Cyfathrebu 2002* i ddarparu y bydd **Gweinidogion Cymru yn penodi un aelod o Ofcom** a, cyn gwneud hynny, y bydd yn rhaid iddynt ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae is-adran (4) hefyd yn diwygio adran 1(5) i sicrhau bod yr aelod a benodir gan Weinidogion Cymru yn cymryd rhan yn y broses o benodi unrhyw aelodau gweithredol o Ofcom.

### Rhan 4: Cyffredinol

**Mae cymalau 51 i 53** ac Atodlenni 5 a 6 yn ymdrin â darpariaeth ganlyniadol, mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, darpariaethau trosiannol a threfniadau cychwyn. Mae cymal 51 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu deddfiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r pŵer hwn yn ymestyn i Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad ond, mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i ddau Dŷ Senedd y DU, ond nid y Cynulliad, gymeradwyo'r offeryn statudol drafft sy'n cynnwys y pŵer cyn y gellir arfer y pŵer hwnnw.

# 4. Datganiad Prif Weinidog Cymru

Ar 8 Mehefin 2016 gwnaeth **Prif Weinidog Cymru** ddatganiad ar Fil Cymru yn y Cyfarfod Llawn. Dywedodd fod y Bil newydd yn "bell o fod yn berffaith", ond ei fod yn well na'r drafft blaenorol. Esboniodd:

> *Roedd un o'r problemau mwyaf gyda'r drafft cynharach o'r Bil yn codi o'r darpariaethau a oedd yn ailgastio'r model rhoi pwerau yn fodel cadw pwerau. Roedd Llywodraeth y DU wedi dadlau bod diogelu awdurdodaeth ar y cyd Cymru a Lloegr o fewn y model newydd yn galw am osod cyfyngiadau newydd ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Roedd hwn yn gyfyngiad annerbyniol ac*

*anymarferol ar y cymhwysedd presennol, a oedd yn cynyddu cymhlethdod ac ansicrwydd ym mhwerau'r Cynulliad yn fawr. Mae'r Bil newydd yn welliant sylweddol, a bydd gan y Cynulliad bwerau helaeth i addasu'r gyfraith breifat a chyfraith droseddol mewn perthynas â materion o fewn ei gymhwysedd. Mae'n dal i fod angen cryn dipyn o waith manwl pellach ar y darpariaethau hyn i sicrhau rhywfaint o gysondeb, cydlyniad ac ymarferoldeb cyffredinol, ond maent yn dangos cynnydd cadarnhaol.*

Fodd bynnag, ychwanegodd fod y Bil diwygiedig yn ei gwneud yn glir y bydd y gwahaniaeth rhwng y gyfraith sy'n berthnasol i Gymru a'r gyfraith sy'n berthnasol i Loegr yn parhau i gynyddu dros amser, nes cyrraedd pwynt lle y mae awdurdodaeth ar wahân neu awdurdodaeth benodol i Gymru yn anochel. Dywedodd:

*Byddaf yn parhau i ddadlau bod rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn yn y Bil os yw'n mynd i fod yn gwbl gredadwy fel setliad hirdymor i Gymru. Nawr, os nad yw Llywodraeth y DU yn gweld ei ffordd yn glir tuag at ateb cyflawn yn y Bil hwn, dylai o leiaf roi trefniadau ar waith sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer ateb mwy hirdymor.*

Meysydd eraill o welliant a nodwyd ganddo oedd gostyngiad yn nifer y cydsyniadau sydd eu hangen gan Weinidogion Llywodraeth y DU ar gyfer Biliau'r Cynulliad. Er ei fod yn croesawu hyn, aeth ymlaen i rybuddio: "unwaith eto, mae yna gryn gymhlethdod, ac mae angen gwaith pellach cyn y bydd yn bosibl dweud a yw'r canlyniad cyffredinol yn dderbyniol ac yn ymarferol".

Hefyd, dywedodd y Prif Weinidog y bu cynnydd yn y gwaith o leihau nifer a chwmpas y cymalau cadw, ond y byddai Llywodraeth Cymru yn pwyso am welliannau i gael gwared ar sawl un sy'n parhau, gan gynnwys, er enghraifft, yr ardoll seilwaith cymunedol a thrwyddedu alcohol. Dywedodd hefyd fod darpariaethau'r Bil o ran dŵr "yn annerbyniol fel y maent."

Ailadroddodd ei farn y dylid datganoli'r cyfrifoldeb dros blismona. Mewn ymateb i gwestiwn yn ddiweddarach yn y ddadl, dywedodd: "Oni bai bod rhywfaint o symud ar yr awdurdodaeth neu blismona, mae'r setliad hwn yn gam ymlaen, ond nid yw'n gadarn ac nid yw'n gynaliadwy".

Mae'r Bil yn dileu'r darpariaethau ynghylch refferendwm yn *Neddf Cymru 2014*, gyda'r effaith y gallai'r Trysorlys, drwy Orchymyn, ddechrau datganoli treth incwm heb ganiatâd y Cynulliad na Gweinidogion Cymru. Dywedodd y Prif Weinidog:

Rwyf wedi dweud yn glir na fyddaf yn gallu cefnogi datganoli treth incwm heb fframwaith cyllidol cyffredinol clir drwy gytundeb y ddwy Lywodraeth, ac y bydd y cytundeb hwn yn rhag-amod i gefnogi cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil.

Pwysodd **Leanne Wood**, Arweinydd Plaid Cymru, ar y Prif Weinidog ynghylch arwyddocâd y darpariaethau o ran Asesiadau o'r Effaith ar Gyfiawnder, gan nodi nad oedd Deddfau yr Alban na Gogledd Iwerddon yn cynnwys darpariaethau o'r fath. Aeth ymlaen i ofyn:

*Er y gallai'r adran hon ymddangos yn ddiniwed ar wyneb y Bil, mae gennym bryderon y gallai weithredu fel rhwystr i bwerau deddfwriaethol y Cynulliad. Sut y gallwn wneud yn siŵr nad y profion angenrheidrwydd wedi'u gwanhau yw hyn, ac na fydd yn gweithredu fel mecanwaith rhwystro yn erbyn deddfau a wneir yma?*

Ymatebodd y Prif Weinidog:

> *[…] mae'r profion effaith ar gyfiawnder yn debyg, yn fy marn i - nid wyf yn dadlau o'u plaid - i asesiadau effaith rheoleiddiol lle rydym yn pasio deddf ac yn dweud, 'Wel dyma'r effaith y bydd yn ei chael ar y llysoedd'. Dyna ni. Nid oes dim arall o gwbl y gellid eu defnyddio ar ei gyfer. Nid ydynt yn sail i ryw fath o feto gan San Steffan dros gyfraith Cymru. Byddai'n ddogfen y byddai angen ei chynhyrchu, ond ni allai dim byd pellach ddod o'r peth. […] Ni allaf weld unrhyw broses lle gallai Llywodraeth y DU ddefnyddio asesiad o'r effaith ar gyfiawnder nad oedd yn cytuno ag ef er mwyn atal cyfraith Cymru rhag cael ei rhoi ar y llyfr statud.*

Croesawodd **Andrew RT Davies,** Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, y Bil fel gwelliant ar y Bil Drafft, a rhybuddiodd y Prif Weinidog na ddylai ei awydd i weld plismona yn cael ei ddatganoli "weithredu fel rhwystr rhag dod i gonsensws er mwyn i'r Bil hwn fynd yn ei flaen". Nododd hefyd:

> *Cytunaf yn llwyr â'r fframwaith cyllidol y mae'r Prif Weinidog wedi'i grybwyll yn ei ddatganiad. Mae angen rhoi hynny ar waith i wneud yn siŵr fod y cyfnod pontio ar bwerau treth incwm ar gyfer unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gynhwysfawr, a bod angen iddo roi sicrwydd ac yn anad dim, fod angen iddo wneud yn siŵr nad yw Cymru ar ei cholled.*

Dywedodd **Neil Hamilton**, Arweinydd y Grŵp UKIP, fod ei grŵp yn "rhoi croeso gofalus" i'r Bil. Fodd bynnag, gofynnodd gwestiwn i'r Prif Weinidog ar ddiddymu'r ddarpariaeth y dylid cynnal refferendwm cyn cyflwyno pwerau treth incwm:

> *Mae eich datganiad yn dweud eich bod yn gwrthwynebu datganoli'r pwerau hyn heb ganiatâd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru a fyddai'n golygu felly eu bod yn cael eu gosod gan Weinidogion y Trysorlys. Wel, rwy'n cytuno â hynny i'r graddau hyn: os nad oes refferendwm i fod yna rwy'n sicr yn credu y dylai Cynulliad Cymru gael yr hawl i wneud y penderfyniad hwnnw. Ond ni welaf unrhyw reswm pam na ddylid gweithredu'r ddarpariaeth, sydd yn y gyfraith bresennol, i ymgynghori â phobl Cymru. Dyna oedd yr addewid a roddwyd cyn i'r Ddeddf Cymru ddiwethaf gael Cydsyniad Brenhinol. Mae hyn bellach yn fater o dorri gair i bobl Cymru*

# Atodiad 1

## Rhan 1

### *Trefniadau Cyfansoddiadol*

1 Parhauster Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru

*Cytundeb ynglŷn â'r Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig*

2 Cytundeb ynglŷn â'r Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig

*Cymhwysedd deddfwriaethol*

3 Cymhwysedd deddfwriaethol

4 Awdurdodau cyhoeddus Cymru

*Etholiadau*

5 Pŵer i wneud darpariaeth yn ymwneud ag etholiadau

6 Amseriad etholiadau

7 Cofrestru etholiadol: y gwasanaeth digidol

*Darpariaeth arall yn ymwneud â deddfwriaeth gan y Cynulliad*

8 Y gofyn am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai deddfwriaethau

9 Y gofyn am uwch-fwyafrif: diwygiadau yn ymwneud â gweithdrefnau etc.

10 Cyflwyno Biliau: asesiad o'r effaith ar gyfiawnder

11 Cyflwyno Biliau ar gyfer Cydsyniad Brenhinol: rôl y Llywydd

*Darpariaeth arall yn ymwneud â'r Cynulliad*

12 Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio

13 Cyfansoddiad pwyllgorau'r Cynulliad

14 Gweithdrefnau'r Cynulliad: cyfranogiad Gweinidogion y DU etc

19 Newid enw'r Cynulliad etc: trosi cyfeiriadau

16 Cyfraddau Cymreig o dreth incwm: cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm

*Cymhwysedd gweithrediaeth*

17 Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

18 Gweithredu cyfraith yr UE

19 Trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogol

20 Swyddogaethau Gweinidogol a drosglwyddwyd

21 Ymghynghori ar gyrff trawsffiniol

## Rhan 2

*Petrolewm ar y tir*

22 Trwyddedu petrolewm ar y tir

23 Petrolewm ar y tir: trwyddedau sy'n bodoli'n barod

24 Petrolewm ar y Tir: hawl i ddefnyddio tir ar lefel dwfn yng Nghymru

*Trafnidiaeth ar y ffyrdd*

25 Ffyrdd: cyfyngiadau cyflymder, croesfannau i gerddwyr ac arwyddion traffig

26 Cofrestru gwasanaethau bws a chomisiynwyr traffig

27 Tacsis: trosglwyddo rhai swyddogaethau i Weinidogion Cymru

*Harbyrau*

28 Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol yn ymwneud â harbyrau Cymru

29 Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol: diwygiadau i Ddeddf Harbyrau 1964

30 Trosglwyddo swyddogaethau ynghylch harbyrau: cymhwyso darpariaethau cyffredinol

31 Harbyrau Cymru: porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir

32 Harbyrau Cymru: caniatâd datblygu

33 Harbyrau trawsffiniol

34 Arfer swyddogaethau llywio ar sail drawsffiniol

35 Rheoliadau sy'n addasu'r broses o gymhwyso adrannau 32 a 33

*Cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan*

36 Caniatâd cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu â chapasiti o 350MW neu lai

37 Gorsafoedd cynhyrchu a hawliau mordwyo cyhoeddus

38 Datblygiad cysylltiedig o linellau uwchben

39 Cysoni caniatadau datblygu cysylltiedig

*Cyfle cyfartal*

40 Cyfle cyfartal: dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

41 Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd gymdeithasol

*Trwyddedu a chadwraeth forol*

42 Trwyddedu morol yn rhanbarth môr mawr Cymru

43 Parthau cadwraeth morol

*Amrywiol*

44 Ymyrryd os bydd effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth etc

45 Trosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud ag adeiladau ynni a eithrir

46 Cynlluniau cymhelliant ynni adnewyddadwy

**Rhan 3**

**Amrywiol**

47 Darparu gwybodaeth i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

48 Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan

49 Trwyddedu gweithrediadau glofaol: cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru

50 Y Swyddfa Gyfathrebiadau

**Rhan 4**

**Cyffredinol**

51 Darpariaeth ganlyniadol

52 Darpariaethau trosiannol ac arbedion

53 Cychwyn

54 Enw byr

Atodlen 1 — Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 [Materion a Gedwir yn Ôl]

Atodlen 2 — Atodlen 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 [Cyfyngiadau Cyffredinol]

Atodlen 3 — Atodlen 3A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 [Swyddogaethau Gweinidogol a Rennir]

Atodlen 4 — Atodlen 9A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 [Awdurdodau Cyhoeddus Cymru]

Atodlen 3: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Rhan 1 — Diwygiadau Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Rhan 2 — Diwygiadau Deddfau eraill

Atodlen 6 — Darpariaethau trosiannol

Rhan 1 — Darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad

Rhan 2 — Darpariaethau trosiannol eraill